# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff
# Stryd Caepistyll
# Abertawe
# SA1 2BE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph ger canol dinas Abertawe yn awdurdod lleol Abertawe. Agorwyd yr ysgol ym Medi 2012 o ganlyniad i uno Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau Gatholig Sant Joseph.

Mae 611 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys tua 70 o ddisgyblion yn y tri dosbarth meithrin rhan-amser. Mae 20 o ddosbarthiadau amser llawn yn yr ysgol. Mae gan ryw 16% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (21%). Ychydig iawn o blant sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw tua 34% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac mae tua 30% ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Penodwyd pennaeth newydd yn Hydref 2013, ond ni fydd yn dechrau ar y swydd tan Ebrill 2014. Yn y cyfamser, mae'r corff llywodraethol wedi penodi pennaeth dros dro. Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,993 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Abertawe yw £15,824 a'r isafswm yw £2,673. Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph yn safle 75 allan o'r 80 ysgol gynradd yn Abertawe o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- mae safonau lles disgyblion yn dda;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn cymryd rhan yn llawn mewn gwersi;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol;
- mae darpariaeth effeithiol ar gyfer yr iaith Gymraeg a diwylliant a thraddodiadau Cymru;
- mae'r rhan fwyaf o wersi yn dangos nodweddion addysgu da ac yn cymell disgyblion yn dda;
- mae cymorth bugeiliol yn nodwedd gref yn yr ysgol; ac
- mae ansawdd adnoddau yn dda ac mae staff a disgyblion yn eu defnyddio'n dda ar y cyfan.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y pennaeth dros dro a'r uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol y maent yn ei chyfleu yn dda i bob aelod o staff;
- mae staff wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynnal safonau da trwy gyfnod ansefydlog i'r ysgol;
- mae newidiadau diweddar yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen;
- mae uwch staff wedi cymryd rôl arweiniol mewn rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith yn llwyddiannus; ac
- mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gydag ystod o bartneriaid, yn enwedig rhieni.

Fodd bynnag:

- nid yw'r ysgol wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn;
- mae gweithdrefnau asesu yn rhy gymhleth ac nid ydynt yn dangos yn glir y camau nesaf y mae angen i ddisgyblion eu cymryd yn eu dysgu; ac
- nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu yn ddigon trylwyr ac nid yw arweinwyr bob amser yn nodi meysydd o waith yr ysgol y mae angen eu gwella yn gywir.

## Argymhellion

A1 Gwella lefel yr her ar gyfer disgyblion mwy abl yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwneud yn siŵr bod staff yn rhoi egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn, yn enwedig wrth ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu yn annibynnol

A3 Gwneud yn siŵr bod gweithdrefnau asesu yn cael eu symleiddio i alluogi athrawon i wneud defnydd mwy effeithiol o wybodaeth asesu

A4 Gwella ansawdd a chysondeb marcio ac adborth i ddisgyblion i sicrhau eu bod yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

A5 Sefydlu systemau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu a chysylltu'r deilliannau yn agosach â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiad gwaelodlin yr ysgol yn dangos bod gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau mwyafrif y disgyblion islaw'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwrando'n dda iawn ar ei gilydd ac ar oedolion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i siarad am eu gwaith ac mae llawer ohonynt yn ateb cwestiynau gan ddefnyddio manylder addas, er enghraifft wrth siarad am yr addewidion y maent wedi'u gwneud ar gyfer y Grawys. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mynegi eu barn yn hyderus gan ddefnyddio geirfa ddatblygedig, er enghraifft wrth esbonio am waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ffonig yn dda i'w helpu i ddatrys geiriau newydd ac anghyfarwydd. Maent yn trafod eu hoff awdur ac yn ateb cwestiynau am y testun yn fanwl. Mae disgyblion mwy abl yn darllen yn rhugl ac yn defnyddio eu llais adrodd stori yn dda i gynnal diddordeb y gwrandäwr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod y cymeriadau a'r plot yn eu llyfr gyda manylder priodol. Mae ganddynt fedrau effeithiol i'w helpu i ddarllen gyda dealltwriaeth. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn fedrau ymchwil datblygedig. Defnyddiant fynegai ac maent yn brasddarllen a bwrw golwg dros destun i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cynhyrchu darnau byr o ysgrifennu gan ddefnyddio eu gwybodaeth am ffoneg i'w helpu i sillafu geiriau cyffredin yn gywir. Maent yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gyson ac yn gywir yn eu gwaith. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig ddigon nac yn defnyddio geirfa amrywiol i gynnal diddordeb y darllenydd. Nid yw llawer o ddisgyblion yn ffurfio llythrennau yn gywir ac nid yw maint eu hysgrifennu bob amser yn gyson. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da yn eu hysgrifennu. Mewn gwersi Saesneg, maent yn creu darnau o ysgrifennu estynedig gyda strwythur clir, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa ddiddorol i ennyn diddordeb eu cynulleidfa. Mae cyflwyniad a thaclusrwydd llawysgrifen disgyblion yn amrywio'n sylweddol, ond mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddestlus gan ddefnyddio arddull gysylltiedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn effeithiol i ysgrifennu ar safon debyg ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau rhifedd mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn gwneud y cynnydd disgwyliedig nac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys gweithgareddau datrys problemau. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu ac yn rhoi rhifau dau ddigid yn

eu trefn yn gywir, yn adnabod odrifau ac eilrifau, yn adio a thynnu rhifau dau ddigid yn gywir, yn adnabod onglau sgwâr ac yn deall bod safle digid yn nodi ei werth. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn defnyddio'r medrau hyn ar lefel briodol i ddatrys problemau mathemategol mewn meysydd dysgu eraill.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi mathemateg. Defnyddiant ystod o strategaethau i alw i gof dablau lluosi ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatrys problemau rhannu yn llwyddiannus. Maent yn cyfrif gwahaniaethau rhwng rhifau positif a negyddol yn gywir wrth ddadansoddi'r cynnydd a'r gostyngiad mewn tymereddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgeisio'n dda i gymhwyso eu gwybodaeth fathemategol i weithgareddau datrys problemau. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn glir ar y cyfan ac mae hyn yn cynorthwyo cywirdeb wrth ddehongli canlyniadau, yn enwedig wrth ddefnyddio graffiau. Ar draws y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar yr un lefel mewn pynciau eraill.

Mae Cymraeg llafar disgyblion yn datblygu'n dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn ymateb yn addas i ystod o gyfarchion a chyfarwyddiadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gwneud defnydd cynyddol o batrymau iaith cymhleth ac yn ehangu eu geirfa. At ei gilydd, mae medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn Gymraeg yn datblygu'n briodol.

Mae disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm yn gyffredinol, yn enwedig wrth gaffael medrau iaith. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu medrau meddwl a datrys problemau addas yn y Cyfnod Sylfaen. Mae eu cymhwysedd yn y medrau hyn yn gwella'n briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn gyson, ac ar gyfer llythrennedd, medrau mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) hefyd. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6), mae perfformiad disgyblion wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer llythrennedd, medrau mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, Saesneg a mathemateg am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2013, mae perfformiad yn y meysydd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch ar y lefel ddisgwyliedig. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch am y tair blynedd diwethaf. Ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5), mae perfformiad disgyblion dros y tair blynedd diwethaf wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyffredinol, o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus bod oedolion yn delio'n effeithiol ag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod ac yn deall egwyddorion bwyta'n iach. Maent yn gwybod bod dŵr a llaeth yn opsiynau iach ac yn deall bod angen iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd i gynnal iechyd corfforol da.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn cymryd rhan yn llawn mewn gwersi. Maent yn gwrtais a pharchus ac yn dangos pryder am bobl eraill, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn yn yr ysgol. Maent yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach i gefnogi dysgu ei gilydd mewn llawer o wersi. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau maes chwarae. Maent yn sicrhau bod gan bob un o'r disgyblion rywun i chwarae â nhw amser chwarae ac amser cinio a'u bod yn cymryd rhan weithredol mewn trefnu gemau maes chwarae. Mae swyddogion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau o ddifrif, fel sicrhau symud diogel o amgylch yr adeilad, yn enwedig wrth ddefnyddio'r nifer fawr o risiau ar y safle.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyfradd presenoldeb gyffredinol disgyblion yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion.

Caiff aelodau o'r cyngor ysgol eu hethol ac maent yn cynrychioli safbwyntiau eu cyfoedion yn dda. Mae ganddynt rôl weithredol mewn codi arian, fel casglu arian i gefnogi ymweliadau â Lourdes i blant ag anableddau. Cawsant eu cynnwys yn briodol wrth recriwtio a dewis y pennaeth newydd. Maent yn ymateb yn llwyddiannus i awgrymiadau disgyblion ar gyfer gwella'r amgylchedd maes chwarae, er enghraifft trwy ofyn am barasolau ar gyfer y maes chwarae ar ben y to.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas i fynd i'r afael â'r holl feysydd dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn gyfyngedig hefyd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae profiadau dysgu yn eang ac ysgogol ac yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae ystod addas o weithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol yn gwella'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae athrawon mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys yr un grŵp blwyddyn yn cynllunio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau darpariaeth gyson. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da tuag at roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn dechrau sicrhau bod athrawon yn atgyfnerthu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.

Ceir darpariaeth effeithiol iawn i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ac, o ganlyniad, mae

disgyblion hŷn yn gymwys mewn defnyddio ystod addas o wahanol gymwysiadau a meddalwedd. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn llawn ar draws y cwricwlwm i wella ac ymestyn gwaith disgyblion.

Mae rhaglenni ymyrraeth wedi'u targedu'n dda yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy yn dda. Mae'r pwyllgor eco gweithgar a brwdfrydig yn trefnu mentrau ailgylchu i annog disgyblion i ofalu am amgylchedd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r materion amgylcheddol sydd ynghlwm wrth warchod coedwigoedd glaw yn dda iawn. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg yn dda. Mae'n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a hanes Cymru yn dda trwy ymweliadau â mannau o ddiddordeb lleol a safleoedd treftadaeth. Mae'r ysgol yn dathlu traddodiadau Cymreig yn llwyddiannus trwy astudio bywyd cymeriadau enwog, fel Dewi Sant a Santes Dwynwen. Caiff disgyblion gyfleoedd da i fwynhau chwedlau Cymraeg traddodiadol, fel Llyn Y Fan Fach a Chantre'r Gwaelod.

**Addysgu: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi gydag amcanion dysgu clir ac maent yn rhannu'r rhain gyda disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynnal gwersi ar gyflymder addas ac yn cynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n ddiwyd ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae llawer o athrawon yn ailadrodd dysgu blaenorol disgyblion ac mae hyn yn helpu disgyblion i adeiladu ar fedrau y maent eisoes wedi'u caffael yn llwyddiannus. Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi medrus i ddeall a datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae staff cymorth yn gweithio'n dda iawn ochr yn ochr ag athrawon i alluogi disgyblion i wneud cynnydd da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae athrawon yn cynllunio ystod addas o weithgareddau i ddatblygu medrau llawer o ddisgyblion yn briodol, ond nid ydynt bob amser yn herio disgyblion mwy abl yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd digonol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod addas o adnoddau a strategaethau addysgu yn effeithiol i osod gwaith heriol sy'n herio disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn casglu llawer o wybodaeth am yr hyn y gall disgyblion ei wneud a pha mor dda y maent yn cyflawni trwy ei rhaglen asesu helaeth. Mae athrawon yn dadansoddi'r wybodaeth yn ofalus, ond mae'r system yn rhy gymhleth a beichus ac nid yw bob amser yn cefnogi athrawon yn effeithiol wrth gynllunio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion. Mae safonau marcio ac adborth i ddisgyblion yn anghyson rhwng dosbarthiadau. Nid yw marcio bob amser yn cyfeirio at y deilliant dysgu bwriadedig

na'r camau nesaf y mae angen i ddisgyblion eu cymryd er mwyn gwella'u gwaith. Mae athrawon yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith hyn ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae gan ddisgyblion dargedau ar gyfer gwella, ond ychydig o ddisgyblion yn unig sy'n gwybod beth yw'r targedau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i'w cyflawni.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn glir a llawn gwybodaeth ac maent yn nodi targedau priodol ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal. Mae'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig trwy ei chysylltiadau agos â'r Eglwys Gatholig leol.

Ceir system effeithiol iawn ar gyfer croesawu plant i'r ysgol bob bore. Mae aelodau o'r tîm bugeiliol yn cyfarch teuluoedd yn gynnes wrth fynedfa'r ysgol. Defnyddiant y cyfnod hwn yn hynod effeithiol i gael gwybodaeth a allai effeithio ar les disgyblion, fel unrhyw broblemau iechyd neu bryderon a allai fod gan ddisgybl. Maent yn canmol disgyblion sydd wedi dangos ymddygiad da ac yn atgoffa disgyblion am bwysigrwydd mynd i'r ysgol. Mae gan y tîm bugeiliol gysylltiadau llwyddiannus gydag asiantaethau allanol i roi cymorth da i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Ceir systemau addas ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chymryd camau priodol. Yn ddiweddar, mae staff wedi dechrau adolygu cynlluniau addysg unigol yn fwy effeithiol, ac fe gaiff athrawon a rhieni eu cynnwys yn addas mewn monitro eu cynnydd. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol o ran lleihau absenoldeb o'r ysgol a gwella agweddau at ddysgu. Mae'r ysgol yn bodloni anghenion disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn dda trwy ddarparu cymorth unigol effeithiol.

Mae gan yr ysgol ddull effeithiol o gadw disgyblion yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, ceir arddangosfeydd amlwg o'r cod e-ddiogelwch ar draws yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn effeithiol iawn o ran hyrwyddo ethos hapus a gofalgar yn unol â'i gwerthoedd Cristnogol. Rhoddir pwyslais cryf ar sicrhau cydraddoldeb o ran darpariaeth, a chyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar bob rhan o'r cwricwlwm.

Mae adnoddau o ansawdd da yn cefnogi addysgu a dysgu yn dda. Mae ystod gynhwysfawr o offer cyfoes ar gael i gefnogi addysgu medrau TGCh yn effeithiol. Mae gan yr ysgol ystod eang o ddeunyddiau darllen o ansawdd da sy'n cefnogi datblygiad medrau llythrennedd disgyblion yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd addysgu yn olau a deniadol a cheir arddangosfeydd diddorol o waith disgyblion sy'n dathlu diwylliant amrywiol yr ysgol yn dda. Mae ardaloedd mewnol yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu ei nifer gyfyngedig o ardaloedd awyr agored yn briodol i wella profiadau dysgu disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Yn dilyn uno'r ddwy ysgol yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol newydd yn dda. Mae'r pennaeth dros dro a'r corff llywodraethol wedi ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli yn briodol i adlewyrchu anghenion yr ysgol. O ganlyniad, mae uwch athrawon yn rhannu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol, mae ganddynt gyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n addas ac maent yn deall eu rôl mewn gwella'r ysgol. Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiadau swydd clir ac mae eu rolau wedi'u diffinio'n glir.

Er gwaethaf y newidiadau niferus yn arweinyddiaeth yr ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr wedi cynnal safonau da mewn llawer o agweddau ar waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflawniad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a lles disgyblion ar draws yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn rheoli perfformiad athrawon yn briodol. Megis dechrau datblygu y mae'r broses, ond ceir cysylltiadau clir rhwng y targedau a osodir ar gyfer athrawon a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O dan arweinyddiaeth y pennaeth dros dro, gwnaed cynnydd da tuag at roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac mae llywodraethwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau parhad arweinyddiaeth trwy benodi pennaeth dros dro profiadol. Mae llywodraethwyr yn gwybod beth yw'r blaenoriaethau presennol ar gyfer gwella'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth sy'n datblygu o ddata perfformiad. Megis dechrau darparu lefel briodol o her i'r ysgol yr ydynt yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar waith ar gyfer monitro ei pherfformiad. Mae gan yr uwch dîm rheoli a sefydlwyd yn ddiweddar rolau clir yn y broses hon ac maent yn gyfrifol am arfarnu ystod o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, cymryd samplau o waith disgyblion ac arsylwi addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae arweinwyr yn dechrau dwyn athrawon i gyfrif yn fwy effeithiol am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Fodd bynnag, gan mai megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn, mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r pennaeth dros dro wedi cynnwys pob un o'r staff a'r llywodraethwyr mewn arfarnu perfformiad yr ysgol. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr yn dechrau cymryd

trosolwg strategol o gynnydd disgyblion ar draws yr ysgol. Yn dilyn adolygiad o'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae uwch arweinwyr wedi dechrau gwella'r ffordd y caiff y Cyfnod Sylfaen ei drefnu a'i gyflwyno. Mae hyn wedi sicrhau bod profiadau dysgu yn fwy priodol i anghenion disgyblion. Gan fod tîm arweinyddiaeth presennol yr ysgol yn gymharol newydd, nid yw prosesau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n llawn neu nid ydynt yn ddigon trylwyr eto, ac nid yw arweinwyr bob amser yn nodi'n gywir feysydd o waith yr ysgol y mae angen eu gwella.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar y blaenoriaethau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi safonau disgyblion. Mae'r cynllun yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir a graddfeydd amser addas ar gyfer gweithredu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid strategol, gan gynnwys y consortiwm ysgolion dinesig, eglwysi plwyf a'r awdurdod lleol i wella safonau a lles disgyblion. Mae'r ffaith bod yr ysgol yn cydweithio ag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn gryfder arbennig.

Ceir cysylltiadau pontio da gyda'r ysgol uwchradd. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn elwa ar ystod o ymweliadau trefnus a phwrpasol cyn iddynt ymuno â'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn trosglwyddo'n ddidrafferth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Ceir cysylltiadau da gyda rhieni. Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaeth negeseuon testun dyddiol a'i wefan addysgiadol yn effeithiol i wneud yn siŵr ei bod yn hysbysu rhieni'n dda am waith a bywyd yr ysgol.

Mae'r bartneriaeth gref gydag ysgolion eraill yn y clwstwr lleol yn hyrwyddo rhannu arfer dda yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar y cyd i wella darpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae gweithdrefnau'r clwstwr ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi hen ennill eu plwyf. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o safonau cyrhaeddiad ac wedi helpu i gyflawni cysondeb gwell wrth asesu gwaith disgyblion.

Mae cyfraniadau disgyblion at weithgareddau cymunedol yn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae disgyblion yn cefnogi digwyddiadau codi arian elusennol yn y ddinas yn rheolaidd ac mae hyn yn cryfhau eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda. Mae'n gwneud defnydd da o safle anodd ac yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r mannau sydd ar gael yn dda.

Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas i gyflwyno'r cwricwlwm. Ceir trefniadau priodol i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer athrawon. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigedd aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu i gyflwyno gwersi mewn TGCh, addysg gorfforol, celf a cherddoriaeth.

Trwy weithdrefnau gwerthuso ffurfio ac anffurfiol, mae pob aelod o staff yn nodi eu hanghenion hyfforddi a gallant fanteisio ar ystod addas o gyfleoedd hyfforddi. Mae'r rhain yn cefnogi datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus. Mae systemau ar gyfer arsylwi gwersi a rhannu arfer dda yn datblygu'n dda. Mae'r rhwydweithiau o arfer broffesiynol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, yn rheoli a monitro cyllid a gwariant yr ysgol yn effeithlon. Maent yn sicrhau bod gwariant arfaethedig yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgu a lles disgyblion, er enghraifft trwy gyflogi'r tîm cymorth bugeiliol.

O ystyried y safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, cyflawnodd tuag 83% o ddisgyblion y deilliant disgwyliedig mewn perthynas â datblygu llythrennedd, medrau mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol gyda'i gilydd (dangosydd y Cyfnod Sylfaen). Mae hyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a'r ysgolion yng Nghymru. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant uwch na'r disgwyl islaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru ar gyfer llythrennedd a medrau mathemategol hefyd. Ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, mae canlyniadau ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae deilliannau'r ysgol yn ei gosod yn y 50% is ar gyfer llythrennedd, medrau mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol ar y deilliant disgwyliedig. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, mae canlyniadau yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf ym mhob un o'r tri maes.

Yn gyffredinol, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched ac eithrio mewn datblygiad personol a chymdeithasol ar y lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth yn eu perfformiad yn llai na'r gwahaniaeth cyfartalog ar gyfer y teulu o ysgolion ac ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gyffredinol yn perfformio cystal â disgyblion nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim neu'n well ar y lefel ddisgwyliedig ac wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd ar y lefel uwch na'r disgwyl.

Yn 2013, yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae canlyniadau'r ysgol yn ei gosod yn y 50% uwch ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch na'r disgwyl mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru. Ar y lefel uwch, mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 ychydig yn is ar y lefel ddisgwyliedig na pherfformiad y disgyblion hynny nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r bwlch mewn perfformiad wedi mynd yn llai dros y blynyddoedd diwethaf. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn well ar y cyfan na pherfformiad disgyblion nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 101 | 99<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 102 | 97<br>95%<br>92% | 5<br>5%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 101 | 100<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 102 | 101<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 101 | 84<br>83%<br>96% | 17<br>17%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 101 | 100<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 102 | 100<br>98%<br>99% | 2<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 101 | 99<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 85<br>85%<br>91% | 15<br>15%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 101 | 95<br>94%<br>95% | 6<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 102 | 71<br>70%<br>77% | 31<br>30%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 64<br>64%<br>84% | 36<br>36%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 142 | 83 | 52 | 6 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 58% | 37% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 142 | 99 | 40 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 28% | 1% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 142 | 104 | 34 | 3 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 24% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 142 | 81 | 54 | 4 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 38% | 3% | 1% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 142 | 72 | 57 | 4 | 0 | 9 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 51% | 40% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 141 | 75 | 62 | 2 | 1 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 53% | 44% | 1% | 1% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 142 | 78 | 61 | 2 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 55% | 43% | 1% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 142 | 65 | 67 | 8 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 46% | 47% | 6% | 1% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 141 | 69 | 52 | 8 | 3 | 9 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 49% | 37% | 6% | 2% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 141 | 72 | 59 | 7 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 51% | 42% | 5% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 142 | 86 | 51 | 3 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 136 | 59 | 54 | 5 | 6 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 43% | 40% | 4% | 4% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 141 | 59 | 64 | 13 | 5 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 42% | 45% | 9% | 4% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 141 | 62<br>44% | 65<br>46% | 6<br>4% | 6<br>4% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 141 | 48<br>34% | 64<br>45% | 11<br>8% | 3<br>2% | 15 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 141 | 64<br>45% | 68<br>48% | 5<br>4% | 1<br>1% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 131 | 57<br>44% | 50<br>38% | 5<br>4% | 3<br>2% | 16 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 141 | 66<br>47% | 58<br>41% | 8<br>6% | 7<br>5% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 141 | 78<br>55% | 52<br>37% | 5<br>4% | 4<br>3% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jane Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Jane Mccarthy | Arolygydd Tîm |
| Nicola Allan | Arolygydd Tîm |
| Julie Ann Price | Arolygydd Lleyg |
| Alexine Bartholomew | Arolygydd Cymheiriaid |
| Colin Greenwood | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.